O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 461 (Cy.69)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cas-gwent, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2011

Gwnaed	*22 Chwefror 2011*
Yn dod i rym	*25 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A48) (y cyfeirir ati wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** ("Deddf 1984") ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu dros Heddlu Gwent, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cas-gwent, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2011.

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r gefnffordd yng Nghas-gwent yn Sir Fynwy sy'n ymestyn o bwynt 124 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o bwynt canol ei chyffordd ag Upper Church Street hyd at y ffin rhwng Cymru a Lloegr, sef y pwynt hwnnw ar bont yr Afon Gwy sy'n cyd-fynd â phwynt canol yr Afon Gwy.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Chwefror 2011

J COLLINS
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 p.27; Yn lle adran 84(2) rhoddwyd Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.